Rheolau – Cystadleuaeth Cân i Gymru 2010

1. Dyddiad ac amser cau y Gystadleuaeth yw 11 Rhagfyr 2009 am 17:30 ('y Dyddiad Cau').

2. Rhaid i bob ymgeisydd fod dros 16 mlwydd oed ar y Dyddiad Cau.

3. Rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno cân ar CD, casét neu MP3 ynghyd â chopi ysgrifenedig o'r geiriau a ffurflen gais ar neu cyn y Dyddiad Cau. Gellir dod o hyd i'r ffurflen gais ar-lein o S4C.co.uk/canigymru neu drwy ffonio 01443 688530. Gellir cyflwyno'r CD/casét/MP3 a'r geiriau â llaw, trwy'r post neu yn electronig. Nid yw S4C nac Avanti yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddeunydd sydd yn mynd ar goll yn y post neu yn methu cyrraedd Avanti am unrhyw reswm cyn neu erbyn y Dyddiad Cau. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yn unig yw sicrhau bod y cynnig yn cyrraedd Avanti cyn neu erbyn y Dyddiad Cau.

   Dylid danfon y CD/casét ynghyd â chopi caled o'r ffurflen gais at:
   Cân I Gymru 2010,
   Y Ffatri Bop,
   Welsh Hills Works,
   Stryd Jenkin,
   Y Porth,
   CF39 9PP

   Dylid danfon yr MP3 ynghyd â chopi electroneg o'r ffurflen gais at y cyfeiriad e-bost hwn: canigymru2010@thepopfactory.com

4. Rhaid i'r gân fod yn Gymraeg.

5. Rhaid i'r geiriau a'r gerddoriaeth fod yn wreiddiol.

6. Mae'n amod nad yw'r gân wedi cael ei chwarae na'i pherfformio ar y radio, y teledu neu ar y we, neu ei rhyddhau ar gasét neu CD fasnachol cyn y Dyddiad Cau.

7. Gellir defnyddio unrhyw arddull gerddorol.

8. Beirniedir y caneuon yn ôl eu halawon a'u geiriau.

9. Mi fydd panel o feirniaid yn ystyried pob cân a dderbynir erbyn y Dyddiad Cau a byddant yn dewis rhestr fer o 8 cân.

10. Cyhoeddir y penderfyniad am y rhestr fer cyn neu ar 4 Ionawr 2010. Mae S4C ac Avanti yn cadw'r hawl i wahodd unigolion yn uniongyrchol i gystadlu cyn y Dyddiad Cau. Bydd S4C neu Avanti yn cysylltu â

chyfansoddwr(wyr) ac awdur(on) yr wyth cân ar y rhestr fer gyda'u penderfyniad dros y ffôn. Bydd S4C neu Avanti yn hysbysu cyfansoddwr(wyr) ac awdur(on) y caneuon aflwyddiannus (trwy'r post) erbyn 18 Ionawr 2010.

11. Bydd yr wyth cân ar y rhestr fer yn cael eu perfformio yn ystod y gystadleuaeth fyw a gynhelir ar 28 Chwefror 2010 ('Noson Cân i Gymru'). Caiff Noson Cân i Gymru ei recordio a'i darlledu'n fyw ('y Rhaglen') ar deledu ac o bosib ar y radio ac ar y we.

12. Caiff y caneuon eu trefnu a'u recordio gan dîm o gyfarwyddwyr cerdd a ddewisir gan S4C ac Avanti.

13. Bydd cynrychiolydd S4C a chynrychiolydd Avanti yn penderfynu pwy sydd i berfformio'r wyth cân a ddewisir i gystadlu yn ystod Noson Cân i Gymru ac i'w cynnwys yn y Rhaglen.

14. Bydd yr wyth cân a ddewisir i gystadlu yn ystod Noson Cân i Gymru yn cael eu darlledu ar y teledu, y radio a/neu ar y we yn ystod y darllediadau o Noson Cân i Gymru ar S4C ac mae'n rhaid i'r cyfansoddwr(wyr) ac awdur(on) geiriau'r wyth cân sicrhau nad oes unrhyw rwystr i hyn. Yn ogystal, mae S4C yn ystyried (ond nid yw'n addo) ymgorffori'r wyth cân a ddewisir mewn recordiad sain a/neu recordiad clyw-weledol o'r Gystadleuaeth a defnyddio'r gân fuddugol ac o bosib rhai o'r caneuon eraill mewn rhaglenni eraill ar S4C ac mae'n rhaid i'r cyfansoddwr(wyr) ac awdur(on) sicrhau nad oes unrhyw rwystr i hyn.

15.

(a) Mae'n amod na chwaraeir ac na pherfformir yr wyth cân a ddewiswyd yn gyhoeddus, nac ar y radio, y teledu neu ar y we, ac na ryddheir yr wyth cân a ddewiswyd ar gasét neu CD fasnachol cyn y Noson Cân i Gymru. (Nid yw'r amod hwn yn effeithio ar y caneuon nas dewiswyd fel un o'r wyth cân ar y rhestr fer).

(b) Os beirniedir cân yn deilwng o wobr arbennig y rheithgor (gweler 18) yna fydd yr amodau uchod (15a) yn berthnasol i'r gân honno hefyd.

16. (a) Mae'n rhag-amod sylfaenol o gystadlu yn y Gystadleuaeth hon fod cyfansoddwr(wyr) ac awdur(on) geiriau pob cân ar gyfer y Gystadleuaeth hon yn cytuno i arwyddo cytundeb safonol ar gyfer y Gystadleuaeth ('y Cytundeb Safonol') (gellir cael copi o'r cytundeb safonol oddi wrth Avanti) ond ar yr amod na fydd disgwyl i gyfansoddwr(wyr) ac awdur(on) unrhyw gân na ddewisir fel un o'r wyth cân i'w perfformio ar Noson Cân i Gymru arwyddo'r Cytundeb

Safonol ac na fydd S4C yn cymryd unrhyw hawliau mewn unrhyw gân na ddewisir i'w pherfformio ar Noson Cân i Gymru. Ni fydd S4C nac Avanti yn sicrhau'r hawlfraint nac yn cymryd unrhyw hawliau yn yr wyth cân tu hwnt i'r hawliau sydd eu hangen arnynt yn unol â Rheol 14 uchod.

(b) Bydd Avanti yn cysylltu â chyfansoddwr(wyr) ac awdur(on) geiriau pob un o'r wyth cân sydd wedi eu dethol i fod yr wyth cân a berfformir ar Noson Cân i Gymru cyn neu erbyn 4 Ionawr 2010 a bydd Avanti yn danfon copïau o'r Cytundeb Safonol atynt ar yr un pryd. Mae'n rhag-amod sylfaenol o gystadlu a chymryd rhan yn Noson Cân i Gymru fod cyfansoddwr(wyr) ac awdur(on) geiriau pob un o'r wyth cân sydd wedi eu dethol i'w perfformio yn ystod Noson Cân i Gymru yn arwyddo'r Cytundeb Safonol ac yn ei ddychwelyd at Avanti cyn neu ar 18 Ionawr 2010.

(c) Os nad yw cyfansoddwr(wyr) ac awdur(on) geiriau a cherddoriaeth unrhyw un neu ragor o'r wyth cân sydd wedi eu dethol i'w perfformio ar Noson Cân i Gymru wedi arwyddo'r Cytundeb Safonol a'i ddychwelyd at Avanti erbyn 18 Ionawr 2010, bydd gan Avanti ac S4C yr hawl i ddileu'r fath gân neu ganeuon o'r Gystadleuaeth a cheidw Avanti ac S4C yr hawl i wahodd y panel o feirniaid i ddewis cân neu ganeuon eraill a gynigiwyd ar gyfer y Gystadleuaeth yn eu lle yn unol â'r Rheolau hyn ac i wahodd cyfansoddwr(wyr) ac awdur(on) y gân neu'r caneuon hynny i gymryd rhan ac i gystadlu yn Noson Cân I Gymru yn eu lle, ar yr amod bod y cyfansoddwr(wyr) ac awdur(on) geiriau unrhyw gân sy'n cymryd lle unrhyw un o'r wyth cân a ddewiswyd yn wreiddiol yn arwyddo'r Cytundeb Safonol cyn Noson Cân i Gymru.

17. Mae'n amod fod cyfansoddwr(wyr) ac awdur(on) yr wyth cân a ddewisir i'w perfformio ar Noson Cân i Gymru yn cytuno i fod yn bresennol a chymryd rhan yng nghynhyrchiad y Rhaglen gan gynnwys yn ddigyfyngiad cymryd rhan mewn cyfweliad byr ar Noson Cân i Gymru a bod ar gael i ffilmio proffil byr cyn Noson Cân i Gymru. Tynnwn eich sylw at y ffaith y bydd ymarfer o Noson Cân i Gymru yn cael ei gynnal ar y diwrnod blaenorol, sef 27 Chwefror 2010.

18. Bydd cyfansoddwr(wyr) ac awdur(on) y gân fuddugol yn derbyn cyfanswm o £10,000.00 fel gwobr ariannol. Bydd cyfansoddwr (wyr) ac awdur(on) y gân sy'n dod yn ail yn derbyn cyfanswm o £2,000.00 fel gwobr ariannol tra bydd chyfansoddwr (wyr) ac awdur(on) y gân sy'n dod yn drydydd yn derbyn cyfanswm o £1,500.00 fel gwobr ariannol.

Yn ychwanegol:

Gwneir taliad o gyfanswm o £500.00 i wobrwyo cyfansoddiad na gyrrhaeddodd yr wyth terfynol, ond a oedd, yn nhyb y panel, yn wreiddiol ac yn ddyfeisgar o ran arddull a chrefft.

Gwneir 10 taliad o £100.00 i wobrwyo'r sawl a gyrhaeddodd rhestr fer estynedig o 18 cyfansoddiad ac eithrio'r wyth ar y rhestr fer.

19. Lle bod mwy nag un person wedi cyfansoddi'r gân fuddugol, rhennir y wobr ariannol briodol rhwng holl gyfansoddwyr/awduron y gân briodol ar y cyd. Ni fydd unrhyw ddyletswydd ar S4C i gynnig unrhyw wobrau eraill yn lle'r gwobrau a nodir yn Rheol 18 ac ni ellir cyfnewid na throsglwyddo'r wobr.

20. Caiff enillwyr Cân i Gymru 2010 ei dewis gan system bleidleisio ar Noson Cân i Gymru. Gwneir y penderfyniad fel a ganlyn: bydd pleidlais y panel o feirniaid ar y noson yn cyfri am 50% o'r marciau a bydd cyfanswm y pleidleisiau ffôn yn cyfri am y 50% sy'n weddill.

21. Caiff canlyniad y bleidlais ei gyhoeddi ar y Rhaglen fyw ar 28 Chwefror 2010.

22. Os cyfyd unrhyw anghydfod mewn perthynas â'r bleidlais, y canlyniad neu unrhyw agwedd arall o'r Gystadleuaeth, bydd penderfyniad S4C yn derfynol ac yn rhwymo pob ymgeisydd.

23. Gwahoddir y gân fuddugol i gynrychioli Cymru yn yr Ŵyl Ban Geltaidd (y lleoliad a'r dyddiad eto i'w pennu). Cyfrifoldeb y cyfansoddwr(wyr) ac awdur(on) geiriau'r gân fuddugol fydd sicrhau fod y gân fuddugol yn cael ei pherfformio yn broffesiynol yn yr Ŵyl Ban Geltaidd. Yn ogystal, mater i'r cyfansoddwr(wyr) a'r awdur(on) fydd penderfynu pwy sydd i berfformio'r gân fuddugol yn yr Ŵyl Ban Geltaidd a gwneud y trefniadau angenrheidiol. Rhoddir cyfraniad o £300 i'r cyfansoddwr(wyr) ac awdur(on) geiriau'r gân fuddugol er mwyn iddo(iddynt) drefnu i'w gân (cân) gael ei pherfformio yn yr Ŵyl.

24. Mae'r Gystadleuaeth yn agored i unrhyw ymgeisydd/wyr ac eithrio aelodau o staff S4C, Avanti ac/neu unrhyw berson/cwmni sydd yn gysylltiedig â'r Gystadleuaeth, y Rhaglen neu'r Noson Cân i Gymru.

25. Ni fydd S4C yn atebol os methir cynnal Noson Cân i Gymru neu'r Rhaglen yn llwyr neu'n rhannol am resymau tu hwnt i reolaeth S4C neu os yw problemau technegol neu amgylchiadau eraill sydd tu hwnt i reolaeth S4C yn tarfu ar y Gystadleuaeth, Noson Cân i Gymru, y pleidleisio neu'r Rhaglen mewn unrhyw fodd.

26. Mae Avanti ac S4C yn gwahardd unrhyw atebolrwydd i'r graddau llawn a ganiateir gan y gyfraith am unrhyw golled, difrod, anaf neu siomedigaeth a ddioddefir gan unrhyw ymgeisydd, sy'n codi o'r ffaith ei fod ef, neu ei bod hi, wedi cymryd rhan yn y Gystadleuaeth, y Rhaglen, neu sy'n digwydd i'r buddugol o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi derbyn y wobr.

27. Dim ond at ddibenion gweinyddu'r gystadleuaeth y bydd Avanti yn defnyddio gwybodaeth bersonol yr ymgeiswyr, ac ni fydd yn defnyddio data o'r fath at unrhyw ddibenion eraill. Bydd Avanti yn gofyn i bob gystadleuydd am ganiatad i gadw manylion cyswllt er mwyn eu gwahodd i gystadlu eto yn y dyfodol. Os na rhoddir y caniatad yma mi fydd Avanti yn dinistrio'r holl ddata personol y mae'n meddu arno, ac a gafodd fel rhan o'r ceisiadau ar gyfer y Gystadleuaeth, ar ôl i'r Gystadleuaeth ddod i ben. Prosesir data personol yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998 ac ni fydd yn cael ei rannu gydag unrhyw drydydd parti heb sicrhau caniatâd ymlaen llaw.

28. Dylid unrhyw gŵyn neu gwestiwn sy'n berthnasol i'r Rhaglen gael ei gyfeirio at Y Ffatri Bop, Welsh Hills Works, Stryd Jenkin,Y Porth, CF39 9PP.

29. Mae'r gystadleuaeth hon yn rhwym i gyfreithiau Cymru a Lloegr.

30. Trefnir y gystadleuaeth hon gan, a'r hyrwyddwr yw, Avanti o Y Ffatri Bop, Welsh Hills Works, Stryd Jenkin,Y Porth, CF39 9PP.